

Nifer y busnesau Tir Âr sydd wedi cofrestru ers dechrau'r rhaglen:

704

Nifer y busnesau Garddwriaeth sydd wedi cofrestru ers dechrau'r rhaglen:

263

Y Rhwydwaith Arddangos

Agweddau economaidd ac ymarferol yn ymwneud â magu heffrod llaeth ar fferm ddefaid ucheldir

Mae safle ffoecs Llys Dinmael Isaf ger Corwen yn fferm ddefaid ucheldir. Mae'r fferm wedi datblygu sgiliau drwy bori defaid ar system bori cylchdro a allai fod yn ddefnyddiol er mwyn datblygu menter fagu heffrod llaeth ar y fferm, a manteisio ar gynhyrchiant o fewn y llwyfan bori. Yn gyffredinol, mae'r gofynion ar gyfer heffrod llaeth yn seiliedig ar ofynion y brif fuches laeth, ac ychydig iawn o ddealltwriaeth sydd o ran gofynion heffrod ifanc. Bydd y prosiect hwn yn monitro cyfraddau twf heffrod o'i gymharu â gorchudd cyn ac ar ôl pori, gyda'r nod o ddatblygu gwell dealltwriaeth ynglŷn â sut y gellir pori heffrod Holstein Friesian o fewn system bori cylchdro ar ffurf celloedd i sicrhau'r perfformiad gorau posibl.

Cafodd y llwyfan bori ei sefydlu yn ystod haf 2019, a chafodd llo i laeth benyw eu cyflwyno ar ddiwedd Gorffennaf. Yn ogystal, tyfwyd betys porthiant ar gyfer y gaeaf, ac roedd pwysau byw a gofnodwyd yng nghanol Mawrth yn dangos cynnydd pwysau byw cyfartalog o 1.06kg/dydd. Bydd cyfraddau twf yn parhau i gael eu monitro dros y tymor sydd i ddod.



Heffrod ar fetys porthiant ym mis Rhagfyr 2019 ar fferm Llys Dinmael Isaf.



Heffrod yn pori ym mis Mawrth 2020 ar fferm Llys Dinmael Isaf.

Mapio'r pridd i sicrhau rheolaeth tir mwy manwl gywir

Mae safle arddangos Pantyderi wedi bod yn ymchwilio i fapio pridd er mwyn gallu gwasgaru gwrtaith ar gyfradd amrywiol i wella effeithlonrwydd a lleihau gwastraff. Gan ddefnyddio technegau Dargludedd Trydan (EC), mae'n bosibl mapio cae yn fanwl i weld yr amrywiaeth o ran nodweddion y pridd. Gellir wedyn rhannu'r cae yn barthau rheoli a gellir samplu'r pridd i dargedu gwahanol barthau.

Gan ddefnyddio'r wybodaeth a ddysgwyd o ganlyniad i samplu'r pridd, mae Pantyderi eisoes wedi gwneud arbedion o ran y calch a roddwyd ar y cae gan ddefnyddio technegau gwasgaru ar gyfradd amrywiol o'i gymharu â rheoli'r caeau dan y system gyffredinol flaenorol.

	Glaswelltir		Tir Âr	
	Cyfradd gyffredinol	Cyfradd amrywiol	Cyfradd gyffredinol	Cyfradd amrywiol
Calch (tunnelli)	182.1	171.3	170.0	146.0
Cost	£5,463	£5,139	£5,100	£4,380

Mae'r diagram ar y dde yn dangos sut y cafodd y gyfradd hadau ei amrywio ar draws dau gae a heuwyd gyda haid y gwanwyn. Mae'r asesiadau pridd wedi galluogi'r ffermwr i amrywio'r gyfradd hadau yn ôl yr hyn y gall y tir ei gynnal gan arwain at well defnydd o faetholion a chnwd mwy cytbwys.



Canlyniadau a dadansoddiad o ganlyniadau samplau pridd Hendre Ifan Goch

Ym mis Chwefror, casglwyd samplau pridd o dri chae gwahanol ar draws fferm Hendre Ifan Goch er mwyn cynnal dadansoddiad manwl arnynt. Dewiswyd y caeau penodol hyn gan eu bod yn cynrychioli'r gwahanol fathau o bridd ar y fferm, yn ogystal ag amrywiaeth o ran cynhyrchiant a defnydd cyffredinol (silwair/caeau pori).

Gan edrych ar ganlyniadau'r samplau pridd, mae ambell ffactor cyffredin wedi dod i'r amlwg. Mae'r lefelau Carbon yn dda yn y priddoedd, ond mae'r lefelau Carbon gweithredol yn isel. Mae hyn yn dangos diffyg gweithgaredd biolegol. Mae hyn fel arfer yn digwydd o ganlyniad i gynefin anaddas i'w cynnal.

Mae'n ymddangos o'r samplau a gymerwyd mai un o'r prif ffactorau yn yr achos hwn yw symudiad dŵr o fewn y pridd. Mae bron yn bendant bod y tywydd gwlyb iawn dros y chwe mis diwethaf wedi amlygu hyn ymhellach. Gellir cymryd bod dŵr wedi bod yn sefyll yn y modfeddi uchaf yn hytrach na symud i lawr drwy'r pridd. Yn ddiweddar, mae'r tywydd sych wedi achosi i'r modfeddi uchaf sychu'n sydyn, gan arwain at dir sych ac arafu twf y glaswellt. Mae'n debygol iawn bod digon o leithder ymhellach i lawr yn y pridd nad oes modd i'r gwreiddiau ei gyrraedd.

Un o'r prif dasgau cychwynnol yw ceisio annog y dŵr i symud drwy'r pridd, a chreu amodau mwy ffafriol ar gyfer iechyd y pridd.

Camau nesaf:

- Awyru'r priddoedd ac ychwanegu calch yn ôl y galw. Bydd annog y dŵr i symud yn helpu i waredu'r lefelau haearn uchel yn y pridd.
- Ychwanegu P a K ar bob cae ar gyfer eleni.
- Gwelwyd lefelau Boron isel yn ystod y profion, felly argymhellir y dylid ychwanegu Boron gronynnol ar bob cae.
- Unwaith y bydd y gwaith calchu ac awyru wedi'i gwblhau, byddai ychwanegu cynnyrch yn seiliedig ar Nitrogen sy'n annog Ffosforws yn opsiwn, er mwyn helpu i gyflymu symudiad bioleg y pridd, a dechrau rhyddhau'r banc maetholion o fewn y pridd.

Cafodd y fideo hwn ei gynhyrchu i ddangos nodau ac amcanion y prosiect. Cliciwch [yma](#) neu ar y sgrin deledu i wyllo'r fideo.

Cafodd y fideo ei rannu ar dudalen Facebook Cyswllt Ffermio ar 03/03/2020 gan ddenu'r sylw canlynol:



Cyrhaeddiad: 5,242 Ymgysylltiad: 674
Nifer y rhai sydd wedi hoffi, gwneud sylwadau neu rannu: 50

Podlediad Clust i'r Ddaear

Gwrandewch ar Rhys Williams, Precision Grazing Ltd, yn trafod gwerth glaswellt y gwanwyn a sut i'w ddefnyddio yn y modd mwyaf effeithiol yn ystod y gwanwyn heriol yn 2020.

Cliciwch yma i wrando.



CAFODDY Y PODLEDIAD HWN EI LAWR LWYTHO 2,845 O WEITHIAU YN YSTOD Y CYFNOD HWN.

EIP

6 PROSIECT WEDI CAEL EI GYMERADWYO YN YSTOD Y CYFNOD yn gweithio gyda **20** O FFERMWYR A CHOEDWIGWYR

Bwydo glaswellt drwy'r dail

Yn dilyn y ddau dymor cyntaf o fwydo'r glaswellt drwy'r dail er mwyn cymharu perfformiad gyda phelenni nitrogen, mae adroddiad wedi dangos canfyddiadau cynnar diddorol iawn. Mae pedair fferm yn defnyddio'r dull hwn ar gaeau glaswellt ac yn cymharu perfformiad gyda nitrogen ar ffurf pelenni a llain reoli heb unrhyw wrtaith.

Cyfraddau gwasgaru:

- Mae bwyd dail yn cael ei ddefnyddio bob tair wythnos ar gyfradd o 20kg/ha
- Mae nitrogen ar ffurf pelenni'n cael ei ddefnyddio dwywaith ar gyfradd o 125kg/ha

Er bod y canlyniadau'n dangos fod cyfanswm y deunydd sych (DM) a gynhyrchir yn fwy ar gyfer y nitrogen ar ffurf pelenni, mae'r modd y mae'r glaswellt yn defnyddio nitrogen yn llawer mwy effeithiol pan fydd yn derbyn bwyd drwy'r dail. Nid yw'r cynnyrch DM uwch yn syndod ar gyfer nitrogen ar ffurf pelenni, ond yr hyn sy'n ddiddorol yw bod y cynnyrch ychwanegol fesul kg o nitrogen a roddir yn fwy na dwbl ar gyfer y caeau sy'n derbyn nitrogen drwy'r dail.

Safle	Lleiniau confensiynol		
	Cyfanswm N a roddwyd (Kg/ha)	Cynnyrch Ychwanegol (Kg/ha)	Cynnyrch ychwanegol fesul Kg o N a roddwyd (Kg/DM/Kg N)
1	250	3100	12.4
2	250	2200	8.8
3	212	1700	8.0
4	268	6000	22.4

Safle	Lleiniau a dderbyniodd fwyd drwy'r dail		
	Cyfanswm N a roddwyd (Kg/ha)	Cynnyrch Ychwanegol (Kg/ha)	Cynnyrch ychwanegol fesul Kg o N a roddwyd (Kg/DM/Kg N)
1	46	1300	28.3
2	64	1600	25.0
3	72	1300	18.1
4	72	3800	52.8

Y Gwasanaeth Cyngori

Nifer y busnesau sydd wedi derbyn cefnogaeth dan y Categori Tir fel rhan o'r Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod:



Mae 63 unigolyn wedi derbyn cefnogaeth un i un dan y Categori Tir o fewn y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn.



Mae 82 grŵp wedi derbyn cefnogaeth dan y Categori Tir o fewn y Gwasanaeth Cyngori yn ystod y cyfnod hwn.

Adborth gan fusnesau ar y Gwasanaeth Cyngori:

"Mae wedi fy ngalluogi i wneud penderfyniadau mwy deallus, gan ein helpu i ganfod lle y gallwn leihau mewnbynnau gwrtiaith a thargedu caeau penodol eraill i ychwanegu gwrtiaith lle bo angen."

"Mae'n ddefnyddiol iawn i gael gwybodaeth mor benodol ar gyfer pob ca ear y fferm. Byddwn yn dilyn y cyngor a dderbyniwyd gan nad oeddem yn gwybod lle i ddechrau o'r blaen."

Grwpiau Trafod

Astudiaeth Achos

Grŵp Trafod Biff Gogledd Cymru

Cafodd aelodau'r grŵp trafod biff ar Ynys Môn gyfle i brofi eu priddoedd ar gyfer deunydd organig gan ddefnyddio'r dull Haney o brofi pridd. Bu Steve Townsend o Soil First Farming yn cwrdd â'r grŵp i drafod y canfyddiadau.

Yn gyffredinol, roedd priddoedd y grŵp yn ardderchog, gyda chynnwys deunydd organig dros 15% mewn rhai achosion. Bu Steve yn trafod y pwyntiau allweddol canlynol yn ystod y cyfarfod:

- Calsiwm oedd yr elfen bwysicaf ar ôl carbon yn y pridd gan ei fod yn rheoli strwythur y pridd
- Gall pridd iach gynnwys 25% aer a 25% dŵr
- Mae Calcifert neu Limex yn gweithio'n sydyn ac yn effeithiol
- Anelwch at lefel pH o 6.5, a lefelau K ddwywaith lefelau Mg ar y tabl dadansoddi Haney
- Mae lefelau carbon toddadwy yn arwydd dibynadwy o briddoedd iach o ran microbiolog

Awgrymwyd hefyd y dylai aelodau'r grŵp brofi ar gyfer capasiti cyfnewid cation yn eu priddoedd gan fod hynny'n dangos capasiti'r pridd ar gyfer cadw mwynau. Dylai pridd da gynnwys 68% Ca, 12% Mg, 2-4% K ac 1-2% Na.

Amlygwyd pwysigrwydd sylffwr gan ei fod yn creu asidau amino o fewn planhigion, sy'n effeithio ar lefelau protein yn y cnwd. Argymhellir gwrtiaith megis 38:0:19 gydag ychwanegiad Muriate of potash (MOP) er mwyn gwasgaru'r lefelau sylffwr gorau. Ceir tystiolaeth fod lefelau protein wedi gwella os bydd crydau â'r silwair yn derbyn Epsom Salts dair wythnos cyn cynaeafu.

Y brif neges oedd pwysigrwydd cynnal dadansoddiad pridd mwy manwl, er mwyn gallu edrych ar fwy o elfennau gyda'r bwriad o gywiro unrhyw faterion amlwg sy'n effeithio ar iechyd y pridd.

Meistr ar Borfa

Cynhaliwyd cwrs Meistr ar Borfa dros dri diwrnod ar ddechrau mis Ionawr yng Ngholeg Gelli Aur, Llandeilo. Roedd 13 ffermwr llaeth yn bresennol yn ystod y digwyddiad. Roedd y diwrnod cyntaf yn cynnwys gwybodaeth am briddoedd a sicrhau ansawdd y borfa gyda'r arbenigwr glaswelltir annibynnol, Chris Duller. Roedd yr ail ddiwrnod yn cynnwys gweithdai gan Sean Chubb a John Owen, Canolfan Datblygu Llaeth, Gelli Aur. Roedd gweithdai hyn yn canolbwyntio'n benodol ar reoli'r borfa. Roedd y trydydd diwrnod yn cynnwys cyflwyniadau ar ddefnydd o'r borfa i sicrhau effeithlonrwydd o ran cynhyrchiant.

Cyrsiau Hyfforddiant

Enw'r Cwrs	Nifer yr unigolion sydd wedi derbyn hyfforddiant yn ystod y cyfnod
Dyfarniad Lefel Dau Defnyddio Plaladdwyr yn Ddiogel (PA1 a PA2)	16
Tryc Codi Telegopig ar gyfer Tir Garw	25
ATV gan gynnwys llwythi ac offer sy'n cael ei lusgo (Eistedd arno)	14
Cynnal a Chadw Llif Gadwyn, Trawslifio, Torri a Phrosesu Coed hyd at 380mm	12
Rheoli gwahaddod – Technegau Trapio	7

E-ddysgu

Mae rhai o'r cyrsiau e-ddysgu a gwblhawyd yn ystod y cyfnod hwn yn cynnwys:

RHEOLI'R BORFA



STRWYTHUR Y PRIDD



LLYGREDD AMAETHYDDOL



RHEOLI MAETHOLION AR Y FFERM



Cliciwch yma i fynd i'r wefan



www.llyw.cymru/cyswiltffermio